Cyflwyniad a Llifoedd Gwastraff

Mae Prosiect Gwyrdd yn Bartneriaeth rhwng 5 awdurdod lleol, Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg. Mae'r Bartneriaeth yn ceisio darparu'r ateb amgylcheddol, cost effeithiol ac ymarferol gorau i wastraff gweddilliol ar ôl gwneud y mwyaf o ailgylchu a chompostio'r gwastraff hwnnw ym mhob ardal.

Cynhaliwyd ymarfer profi'r farchnad ac mae nifer o gwmnïau sy'n cynnig amryw o ddatrysiadau technegol gwahanol wedi dangos cryn ddiddordeb yn y Bartneriaeth.

Mae Prosiect Gwyrdd yn argoeli i fod yn brosiect cydweithio mwyaf arwyddocaol rhwng Awdurdodau Lleol yn hanes Cymru. Gyda chyllid llwyddiannus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC), bydd y prosiect yn chwilio am fuddsoddiad preifat arwyddocaol, gan ddatblygu Partneriaeth gynhyrchiol rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus.

Mae pob un o Bartneriaid Prosiect Gwyrdd yn ymrwymedig i gyflawni'r targedau ailgylchu a chompostio heriol a bennwyd gan y Llywodraeth i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu cymaint o wastraff â phosibl, tra'n darparu ateb i wastraff gweddilliol. Mae Cyfarwyddeb Tirlenwi'r UE wedi pennu targedau llym ar y maint a'r mathau o wastraff y gellir eu tirlenwi. Mae'n rhaid cyflawni'r targedau hyn neu bydd dirwyon mawr i bob Awdurdod Lleol, a fydd yn effeithio ar y Dreth Gyngor i drigolion sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.

Dadansoddwyd 'Deilliant Gwastraff' yn 2003 gan AEA Technology ar gyfer y ddogfen 'Cyfansoddiad gwastraff solet bwrdeistrefol yng Nghymru'. Defnyddiwyd y dadansoddiad hwn i lunio data ar gyfer Achos Busnes Amlinellol (ABA) Prosiect Gwyrdd ar gyfer Caerdydd, Sir Fynwy a Bro Morgannwg, tra roedd data cyfansoddiad penodol ar gael ar gyfer Caerffili a Chasnewydd.

Roedd y gwaith ymchwil yn dadansoddi 'Gwastraff y Cartref', gan gynnwys gwastraff o ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, gwastraff o ddrws i ddrws, sbwriel, banciau a gwastraff swmpus. Dadansoddwyd gwastraff nad oedd yn wastraff y cartref hefyd, a oedd yn cynnwys gwastraff masnach, tipio anghyfreithlon, cerbydau gadawedig, asbestos a gwastraff cynnal a chadw'r tir.

Wrth i ailgylchu a chompostio barhau i gynyddu ym mhob un o'r 5 ardal, bydd cyfansoddiad y 'gwastraff gweddilliol' yn newid. Mae Awdurdodau Lleol, gyda chymorth Llywodraeth y DU, yn gyfrifol am addysgu, hysbysu a darparu cyfleusterau er mwyn i breswylwyr allu ailgylchu a chompostio eu gwastraff, lleihau gwastraff i safleoedd tirlenwi tra'n canfod ateb hirdymor cynaliadwy i'r gwastraff sy'n weddill.

Ers arolwg 2003 mae AEA Technology wedi cynnal arolwg arall (Mehefin 2009) ar y 'Deilliant Gwastraff' presennol ar gyfer LlCC. Rhannwyd y cyhoedd yn 18 dosbarth (demograffeg) a chofnodwyd data ar fathau o wastraff sy'n gwneud y gwastraff dinesig yn y pum Awdurdod. Bydd y gwaith ymchwil newydd yn cael ei gyfuno â rhagamcaniadau diweddar ar gyfer 'deilliannau' cyffredinol gwastraff dinesig. Bydd hyn yn darparu swm a chyfansoddiad y gwastraff gweddilliol ar gyfer caffael.

Gwnaed y dadansoddiad drwy ddadansoddi'r mathau sy'n gwneud y gwastraff dinesig. Cafodd y rhain eu nodi mewn pum categori gydag is feini prawf yn cael eu hegluro ar gyfer pob un.

Y rhain oedd:

- Papur a cherdyn (Gyda 11 o is feini prawf)
- Ffilm blastig (gyda 3 o is feini prawf)
- Plastig dwys (gyda 6 o is feini prawf)
- Tecstilau (gyda 3 o is feini prawf)
- Hylosg arall (gyda 10 o is feini prawf)
- Deunydd eraill nad yw'n hylosg (gyda 2 o is feini prawf)
- Gwydr (gyda 4 o is feini prawf)
- Gwastraff bioddiraddadwy gan gynnwys bwyd (gyda 11 o is feini prawf)
- Metel fferrus (gyda 3 o is feini prawf)
- Metel nad yw'n fferrus (gyda 4 o is feini prawf)

Nodwyd 58 math gwahanol o wastraff yn yr ymchwil ac nid oedd yn bosibl ailgylchu na chompostio 14 math o'r gwastraff hwn. Dyma fydd gwastraff gweddilliol y dyfodol. Wrth i ailgylchu a chompostio barhau i gynyddu yng Nghymru, bydd yn rhaid rheoli rhai eitemau drwy broses wahanol,

sef:

- Papur wal
- Papur na ellir ei ailgylchu
- Cerdyn na ellir ei ailgylchu
- Polystyren ehangedig
- Plastig arall nad yw'n blastig pecynnu
- Unedau cegin
- Llawr leino/teils
- Cewynnau tafladwy
- Cynnyrch anymataliaeth
- Hylosg arall
- Deunyddiau eraill heb fod yn hylosg
- Baw a gwelyau anifeiliaid anwes
- Bwyd sydd yn dal yn ei ddeunydd pecynnu
- Ffoil

Mae'n rhaid canfod ateb ar gyfer y 'gwastraff gweddilliol' arall a bydd Prosiect Gwyrdd yn pennu gofynion i'r farchnad ar 5 Hydref. Mae'r Prosiect yn niwtral o ran technoleg ac ymddengys fod diddordeb mawr gan wahanol gwmnïau sy'n cynnig datrysiadau technegol gwahanol. I ddeall rhagor am yr opsiynau sydd ar gael, ewch i www.prosiectgwyrdd.co.uk